# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD GWENER, 11 TACHWEDD 2016 AM 10.00 AM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
| --- | --- | --- |
| C Anderson | A M Cook | K E Marsh |
| H M Morris | C L Philpott | T H Rees |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
| --- | --- | --- |

**Swyddog(ion)**
Lynda Anthony
Aled Gruffydd

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): A C S Colburn, J P Curtice, P Downing a/ac V M Evans
Aelodau Cyfetholedig(wyr):

### 55 DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

### 56 COFNODION:

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2016 yn gofnod cywir.

### 57 GWAHARDD Y CYHOEDD.

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

58 **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREF 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS AM DRWYDDED CERBYD HACNI A GYRRWR HURIO PREIFAT - MC.**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch, ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag MC.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd MC amgylchiadau'r euogfarnau ac atebodd gwestiynau'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD** y dylid **GWRTHOD** cais MC am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

**Rheswm dros y penderfyniad**

Nid oedd y pwyllgor o'r farn bod MC yn berson addas a chymwys oherwydd nid oedd o’r farn bod camddeall y broses yn lliniariad dilys.  Yn ogystal ag osgoi ateb cwestiynau wrth gael ei holi, roedd MC hefyd wedi methu datgelu'r ardystiadau.

59 **APÊL YN ERBYN PENDERFYNIAD I BEIDIO Â CHYMERADWYO CYNORTHWY-YDD TEITHWYR AR GYFER CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL - MOP.**

Manylodd y Swyddog Trafnidiaeth ar gefndir MOP.

Esboniodd MOP amgylchiadau'r euogfarn ac atebodd gwestiynau'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD** bod apêl MOP yn erbyn y penderfyniad i gael ei gymeradwyo fel Cynorthwy-ydd Teithwyr yn cael ei **GYNNAL**.

60 **APÊL YN ERBYN Y PENDERFYNIAD I BEIDIO Â CHYMERADWYO FEL GYRRWR CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL - DLL.**

Manylodd y Swyddog Trafnidiaeth ar y cefndir mewn perthynas â DLL.

Esboniodd DLL, yr oedd ei wraig yn gwmni iddo, amgylchiadau’r euogfarn ac atebodd gwestiynau'r Aelodau.

Darllenodd y cyfreithiwr a oedd yn cynghori'r pwyllgor lythyr cefnogi mewn perthynas ag apêl DLL.

**PENDERFYNWYD** bod apêl DLL yn erbyn y penderfyniad i beidio â'i gymeradwyo fel Cynorthwy-ydd Teithwyr yn cael ei **GYNNAL** a bod DLL yn cael llythyr rhybudd cryf ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.50 am

**CADEIRYDD**